**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Gorffennaf 2017

Annwyl Dai,

**Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu (29 Mehefin 2017).**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd pellach ar y camau a gymerwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i fynd i'r afael â'r pryderon llywodraethu a nodwyd yn 2013, a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 29 Mehefin.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr Adroddiad hwn yn ystod y cyfarfod ar 10 Gorffennaf a nododd y gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'r trefniadau llywodraethu yn BIPBC. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Bwrdd ar y trywydd iawn, a chytunwyd y byddwn yn anfon copi o'r adroddiad atoch chi, a gofyn i'ch Pwyllgor ystyried y trefniadau llywodraethu yn BIPBC fel rhan o'r sesiynau craffu rheolaidd yr ydych yn eu cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir

Nick Ramsay

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**